

Rhif: WG27314



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gwaredu Daearegol o Waredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd:

Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Gweithredu

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2015

Cyflwyniad

- i. Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn bwnc datganoledig: Llywodraeth Cymru felly sy'n gyfrifol am benderfynu ar bolisi gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru.
- ii. Cyhoeddwyd polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd (GUA) ym mis Mai 2015¹ a mabwysiadodd waredu daearegol fel ei hopsiwn ar gyfer cael gwared ar Wastraff Uwch ei Actifedd. Cadarnhaodd hefyd er mwyn cyflawni'r polisi hwn yng Nghymru, rhaid i gymuned sy'n ystyried cynnig lleoliad ymgysylltu â hi'n wirfoddol.
- iii. Mae'r datganiad polisi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 19 Mai, 2015 hefyd yn gosod i lawr y cefndir i'r penderfyniad i fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol Y prif yrwyr y tu ôl i'r polisi newydd yn cynnwys yr angen i sicrhau cydymffurfiaid â'r Gweddillion Tanwydd a Gyfarwyddeb Gwastraff Ymbelydrol; cysondeb â safbwynt Llywodraeth Cymru ar gefnogi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd yng Nghymru sydd eisoes yn bodoli; ac ecwiti rhwng y cenedlaethau sy'n gofyn benderfyniadau gael eu gwneud gan y genhedlaeth bresennol ar gyfer cael gwared o etifeddiaeth 60 mlynedd o wastraff a oedd wedi codi o ddefnydd sifil a milwrol hanesyddol o ddeunyddiau ymbelydrol.
- iv. Yn dilyn mabwysiadu'r polisi, cafodd ymgynghoriad arall ei gynnal ar brosesau lleoli er mwyn i gymunedau sy'n dymuno gwneud hynny gael ymuno â'r prosesau hynny a mynd â'r trafodaethau am leoli cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) yn eu blaen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn ar Brosesau Gwaredu Daearegol rhwng 19 Mai a 18 Awst 2015². Mae'r rhestr lawn o gwestiynau ar gael yn Atodiad 1.
- v. Lansiodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yr ymgynghoriad ar 19 Mai 2015 a chyhoeddwyd y ddogfen ar dudalen ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd ymateb iddo trwy gyflwyno ffurflen ymatebion, naill ai dros e-bost neu drwy'r post.

¹ <http://gov.wales/docs/desh/policy/150519-policy-on-the-management-and-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-cy.pdf>

² <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/geological-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-community-engagement-and-implementation-processes/?lang=cy>

- vi. Ar ôl ymgynghori ar y mater, penderfynodd Llywodraeth Cymru mai gwaredu daearegol fyddai ei pholisi ar gyfer gwaredu GUA, hynny am nifer o resymau. Yn eu plith y mae'r angen i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Tanwydd Gweddillol a Gwastraff Ymbelydrol; bod safbwynt Llywodraeth Cymru ar godi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd hen orsafoedd wedi newid ers mabwysiadu'r polisi; a'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi aildechrau ei phroses leoli CGD yn Lloegr.

- vii. Pennod 1 o ystyriaeth hon o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn rhoi dadansoddiad meintiol o'r atebion a gafwyd i'r cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad. Pennod 2 yn nodi ac yn dadansoddi'r prif themâu sy'n deillio o'r ymatebion a dderbyniwyd. Bydd yr ymatebion llawn hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru (oni bai bod yr ymatebydd gofyn i ni beidio â gwneud hynny) ar gyfer tryloywder.

Pennod 1

Dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law

Crynodeb

1. 1 Mae'r ymatebion a ddaeth i law i'r Ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru³. Rydym wedi crynhoi'r atebion i bob cwestiwn yn y Bennod hon.
1. 2 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law ac yn disgrifio'r prif bwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y prif themâu hyn ym Mhennod 2.
1. 3 Ymatebodd 41 o unigolion a sefydliadau i'r ymgynghoriad. Roedd nifer o ddyblygiadau neu ardystiadau ym mhlith y rheini, felly dim ond 36 o'r ymatebion a ddaeth i law rydym wedi'u dadansoddi.

Sut ydym wedi dadansoddi'r ymatebion?

1. 4 Dewisodd nifer o'r ymatebwyr beidio ag ateb cwestiynau penodol yr ymgynghoriad gan gynnig sylw yn lle hynny ar bynciau perthynol, gan gynnwys nifer gafodd eu hystyried yn y dadansoddiad o'r ymgynghoriad ar adolygu'r polisi presennol ar waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd⁴. Os hoffech weld sut mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y materion hyn, ewch i dudalen ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Trafodir y prif themâu a godwyd hefyd yn Mhennod 2.
1. 5 Lle nad yw'r ymatebwyr wedi ateb cwestiwn yn benodol ond ei bod yn ddigon clir o weddill ei ymateb bod modd deall asesiad synhwyrol o farn yr ymatebydd, rydym wedi'u cynnwys fel atebion i'r cwestiwn.

³ <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/disposal-higher-activity-radioactive-waste/?lang=cy>

⁴ <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/disposal-higher-activity-radioactive-waste/?lang=ecy>

Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu prosesau lleoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cyd-fynd â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ar yr amod eu bod yn gyson ag anghenion cymunedau yng Nghymru?

Os ydych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gwahanol o weithredu nodwch pa drefniadau amgen a fyddai'n briodol a pha fanteision y byddent yn eu cynnig, yn eich barn chi.

O'r rheini a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 79% yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu proses leoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau gwirfoddoli posibl sy'n cyd-fynd â'r rhai a fabwysiadwyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. O'r rheini, pwysleisiodd y rhan fwyaf y byddai hyn yn ddibynnol ar sicrhau trefniadau sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Cymru.

1. 6 Cafwyd ateb i'r cwestiwn penodol hwn gan 14 (39%) o ymatebwyr.
1. 7 Dywedodd 11 (79%) o'r rheini a atebodd y cwestiwn (31% o'r cyfanswm) eu bod yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu prosesau a threfniadau sy'n cyd-fynd â rhai Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rhoddwyd nifer o resymau, yn seiliedig gan fwyaf ar y themâu canlynol:
 - Byddai trefniadau cyson yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithlon a chost-effeithiol;
 - Byddai trefniadau cyson yn osgoi dryswch ac yn fwy tryloyw; a
 - Byddai trefniadau cyson yn osgoi'r ymdeimlad bod safonau gwahanol ac yn sicrhau'r un amodau i bawb.
1. 8 Codwyd nifer o bryderon hefyd ynghylch yr angen i ystyried gwahaniaethau Cymru, yn enwedig y cyfundrefnau amgylcheddol, ieithyddol a deddfwriaethol – cynllunio yn arbennig.
1. 9 Roedd tri ymatebydd yn anghytuno bod angen mabwysiadu trefniadau cyson â'r rheini yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rheswm dau ohonynt oedd eu bod yn anghytuno â'r polisi ei hun. Roedd un yn gwrthod â derbyn y gallai unrhyw gynrychiolydd cymunedol gynrychioli'r gymuned y daw ohoni'n ddigonol.
1. 10 Ni chafwyd cynigion eraill ar gyfer prosesau lleoli na threfniadau ymgysylltu â chymunedau gwirfoddoli.

Cwestiwn 2

A ydych yn cytuno mai dim ond gyda chymunedau sy'n gwirfoddoli ac sy'n barod i ddechrau trafodaethau, heb wneud ymrwymiad ymlaen llaw, ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, y dylid bwrw ymlaen â gwaredu daearegol?

Roedd pawb a atebodd y cwestiwn yn cytuno (gyda rhai amodau) mai dim ond gyda chymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad yn wirfoddol y dylid bwrw ymlaen â gwaredu daearegol.

1. 11 Cafwyd ymateb penodol i'r cwestiwn hwn gan 14 o ymatebwyr (39%).
1. 12 Roedd pawb a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno na ddylid bwrw ymlaen â chynllun gwaredu daearegol heb fod yna gymuned sy'n ystyried cynnig lleoliad yn wirfoddol.
1. 13 Roedd y rhesymau a roddwyd yn ymwneud â'r farn mai dyna oedd yr unig ffordd gywir, effeithiol a theg o fwrw ymlaen â chynllun gwaredu daearegol, ei bod yn gyson â'r arfer gorau rhyngwladol ac mai hon yw'r broses fyddai fwyaf tebygol o gael cefnogaeth fwyaf y cyhoedd.
1. 14 Ychwanegodd nifer o ymatebwyr amodau fel y gofyn y dylai fod yn dderbyniol i 100% o'r boblogaeth, y dylid defnyddio'r egwyddor gwirfoddoli wrth adeiladu gorsafoedd ynni niwclear newydd ac na ddylid ymgysylltu â chymuned cyn i'r gymuned honno gynnig ei hun gyntaf.
1. 15 Dywedodd llawer o'r ymatebwyr hefyd y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i ddiffinio cymunedau, gan gymryd i ystyriaeth y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth y DU.

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno y dylai fod gan gymunedau hawl i dynnu'n ôl o drafodaeth y gellir ei harfer unrhyw bryd cyn cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned?

Roedd pawb atebodd y cwestiwn yn cytuno (gyda rhai amodau) y dylai fod gan gymuned yr hawl i dynnu cynnig yn ôl.

1. 16 Atebwyd y cwestiwn hwn gan 14 o ymatebwyr. Roedd pob un ohonynt (39% o'r cyfanswm) yn cytuno y dylai fod gan gymuned yr hawl i adael trafodaeth ac roedd y mwyafrif yn cytuno y dylai hyn fod yn bosibl unrhyw bryd cyn cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned.
1. 17 Dywedodd un ymatebydd y dylai fod gan gymuned yr hawl i dynnu cynnig yn ôl ar ôl cynnal prawf o gefnogaeth y gymuned, tan fod y cyfleuster wedi'i godi ac yn dechrau gweithio.
1. 18 Dywedodd nifer o ymatebwyr na fyddai cymunedau'n barod i gymryd rhan yn y broses oni bai eu bod yn hyderus bod ganddynt hawl i'w gadael. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i gymuned gymryd rhan lawn yn y broses, cael atebion i unrhyw bryderon a chael gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol i'w helpu i benderfynu.
1. 19 Dywedwyd hefyd y dylid dilyn yr egwyddor hon er mwyn i gymunedau yng Nghymru gael yr un hawliau â'r rheini yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cwestiwn 4

A ydych yn cytuno y dylid cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned ar ôl cynnal trafodaethau a rhoi gwybodaeth i gymuned a allai gynnig lleoliad a chyn i'r gwaith o adeiladu CGD ddechrau?

Roedd pawb a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned.

1. 20 Atebwyd y cwestiwn hwn gan 13 o ymatebwyr (36%). Roedd pawb a atebodd yn gytûn y dylid cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned ac roedd y mwyafrif yn cytuno y dylid cynnal y prawf ar ôl cynnal trafodaethau a darparu gwybodaeth a chyn dechrau adeiladu.
1. 21 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn hanfodol gan na ellid adeiladu cyfleuster heb gymuned gefnogol.
1. 22 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid cynnal profion o gefnogaeth y gymuned yn gynnar yn y broses neu drwy gydol y broses.

Cwestiwn 5

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion adeiladol ynglŷn â sut y dylai'r prawf cyhoeddus o gefnogaeth y cyhoedd fod wedi'i strwythuro yng Nghymru.

Yr argymhelliad mwyaf cyffredin oedd y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r Gweithgor Cynrychioli Cymunedau a dylai eu gwaith gael dylanwadu ar ei chynigion

1. 23 Cafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan 11 o ymatebwyr Cafodd nifer o awgrymiadau eu cynnig, er mai'r themâu canlynol gododd fwyaf:

- Dylai'r prawf fod yn ddemocrataidd, tryloyw a chynhwysol;
- Dylai gwaith Llywodraeth y DU/y Gweithgor Cynrychioli Cymunedau ddylanwadu ar siâp y cynigion;
- Rhaid crisialu anghenion y gymuned;
- Rhaid i unrhyw brawf adlewyrchu'r gymuned – ni ddylai o reidrwydd ddilyn ffiniau daearyddol a gwleidyddol; a
- Rhaid i'r prawf gael ei gynnal ar ôl ymgyrch i hysbysu'r cyhoedd. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys amrywiaeth o safbwyntiau, gwybodaeth hawdd ei deall, bydd yn gwahanu'r canfyddiad o risg oddi wrth ffeithiau gwyddonol ac yn osgoi ceisio dwyn perswâd.

Cwestiwn 6

Yn eich barn chi, a ddylid rhoi cyfle i gymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad weld gwybodaeth megis yr arolwg daearegol cenedlaethol a gwybodaeth am wyddoniaeth a pheirianeg gwaredu daearegol cyn iddynt gynnal trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Roedd pawb a atebodd y cwestiwn yn cytuno y dylai cymunedau gwirfoddoli posibl weld gwybodaeth megis yr arolwg daearegol a gwybodaeth wyddonol a pheirianegol cyn iddynt gynnal trafodaethau.

1. 24 Roedd 14 o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn ac roedd pob un ohonynt (39% o'r cyfanswm) yn cytuno y dylai cymunedau gael gwybodaeth o'r fath cyn dechrau trafod y posibilrwydd o leoli cyfleuster.
1. 25 Rhoddwyd nifer o resymau gan gynnwys bod yn gyson ag arfer da rhyngwladol a chydraddoldeb â Lloegr a Gogledd Iwerddon.
1. 26 Byddai darparu gwybodaeth yn fuan yn golygu y gallai cymuned adael y broses yn fuan os gwêl fod y lleoliad yn amlwg anaddas. Byddai hefyd yn hanfodol er mwyn medru cynnal proses leoli gredadwy yn effeithlon. Heb hynny, pe bai cymuned yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth anghyflawn, gellid herio'r penderfyniad hwnnw yn y llysoedd. Ni ddylid cadw unrhyw wybodaeth berthnasol yn ôl am unrhyw reswm.
1. 27 Un thema amlwg a godwyd oedd bod angen i'r wybodaeth fod yn niwtral a bod angen iddi fod yn ddealladwy heb ddisgwyl i'r cymunedau orfod dehongli gwybodaeth dechnegol.

Cwestiwn 7

Yn eich barn chi, a ddylai cymunedau sy'n trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD allu ceisio cyngor arbenigol fel endidau annibynnol yn ystod y trafodaethau hynny pan fyddant yn ystyried bod ei angen?

Roedd pawb a atebodd y cwestiwn yn cytuno y dylai cymunedau sy'n trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad yn cael gofyn am gyngor arbenigol.

1. 28 Atebwyd y cwestiwn hwn gan 14 o'r ymatebwyr (39% o'r cyfanswm) ac roedd pawb a atebodd yn gytûn y dylai cymunedau gael gofyn am gyngor arbenigol annibynnol yn ystod eu trafodaethau, pan welant fod ei angen.
1. 29 Roedd ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn briodol am resymau gan gynnwys: cydraddoldeb â Lloegr a Gogledd Iwerddon, arfer da rhyngwladol a phwysigrwydd rhoi hyder i gymunedau feithrin capasiti a gwybodaeth i allu cyfrannu at y broses benderfynu.
1. 30 Dywedodd llawer o'r ymatebwyr bod yn rhaid wrth farn gytbwys a gwrthrychedd, bod angen arbenigwyr fyddai'n gallu paratoi eu cyngor yng nghyd-destun gwaredu daearegol a bod rheini'n gynghorwyr y gellid ymddiried ynddynt. Mae hyn yn bwysig gan fod pobl yn aml yn ddrwgdybus o gyngor llywodraeth ac ni fydd yn gallu rhoi arweiniad i helpu cymunedau i ddeall materion technegol heb i bobl ofni y gallai gordefnyddio'i dylanwad. Trwy gysylltu eu hunain â chymdeithasau dysgedig, bydd cymunedau'n gallu ymddiried yn y cyngor y maen nhw'n ei gael.
1. 31 Roedd rhai ymatebion yn ystyried bod pobl yn aml yn amheus o gyngor y llywodraeth ac felly nid oes gan Lywodraeth na'r datblygwr yn gallu cymryd y rôl arweiniol o helpu cymunedau i ddeall materion technegol heb ganfyddiad at gael dylanwad gormodol.
1. 32 Ystyriodd un ymateb na ddylai ffynonellau cyngor yn cael ei gyfyngu i'r rhai a ystyrir yn darparu "dwylo diogel".

Cwestiwn 8

A ydych yn cytuno y dylid nodi'r stocrestr o wastraff i'w waredu cyn cynnal trafodaethau ac y dylai'r gymuned gytuno ar unrhyw newidiadau cyn ymrwymo i gynrig lleoliad ar gyfer CGD?

Roedd 86% o'r rheini a atebodd y cwestiwn yn cytuno y dylid cyhoeddi'r stocrestr wastraff ymlaen llaw a bod angen i'r gymuned gytuno ar unrhyw newidiadau iddi.

1. 33 Cafwyd ateb i'r cwestiwn hwn gan 14 o ymatebwyr. O'r rheini, cytunodd 12 (86%) y dylid cyhoeddi'r stocrestr ymlaen llaw ac y dylai'r gymuned gytuno ar unrhyw newidiadau iddi.
1. 34 Ymhlith y rhesymau dros nodi'r stocrestr oedd:
 - Byddai'r wybodaeth yn hanfodol i'r gymuned iddi allu gwneud penderfyniad;
 - Rhaid bod yn dryloyw wrth ddarparu gwybodaeth; a
 - Y stocrestr fydd yn pennu maint y CGD a ph'un a oes angen mwy nag un.
1. 35 Mynegwyd pryder y gallai'r derminoleg gael ei chamddefnyddio.
1. 36 Nid faint o wastraff ddylai cyfyngu ar gyfleuster, ond i ba raddau y mae modd cael gwared ar wastraff yn ddiogel. Gallai achosion diogelwch ar gyfer safle penodol gyfyngu ar faint o wastraff a pha fath o wastraff y gellir ei waredu.
1. 37 Roedd dau ymateb yn anghytuno. Roedd un yn anghytuno am ei fod yn gwrthwynebu codi gorsafoedd ynni niwclear newydd a dywedodd y llall y byddai cyhoeddi stocrestr yn ddiangen ac yn wrthgynhyrchiol gan y gallai'r berthynas rhyngddi a'r effeithiau fod yn gymhleth – mae angen eglurder ar gymunedau.

Cwestiwn 9

A ydych yn cytuno y dylai'r stocrestr o wastraff i'w waredu gynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?

Roedd 69% o'r rheini atebodd y cwestiwn yn cytuno y dylai'r stocrestr gynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd.

1. 38 Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 69% (9) yn cytuno y dylai'r stocrestr gwaredu gynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd.
1. 39 Y rhesymau pennaf dros gredu hynny yw nad oes rheswm technegol pam na ddylid cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ac mai hon yw'r ffordd synhwyrol (yn enwedig o gofio polisi y Llywodraeth ar orsafoedd ynni niwclear newydd) a mwyaf diogel sydd ar gael.
1. 40 Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd bod yn dryloyw. Byddai peidio â datgelu gwybodaeth berthnasol yn cael effaith negyddol ar lwyddiant unrhyw broses weithredu.
1. 41 Roedd 4 ymatebydd (31% o'r rheini a atebodd y cwestiwn) yn anghytuno y dylai gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd gael ei gynnwys ar y stocrestr. Y prif reswm oedd gwrthwynebiad i unrhyw bolisi a fyddai'n arwain at greu mwy o GUA.

Cwestiwn 10

Os nad ydych yn cytuno y dylid cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ar y stocrestr o wastraff i'w waredu pa opsiwn gwaredu fyddai'n well gennych ar gyfer gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?

1. 42 Fel y dywedwyd uchod, y rheswm mwyaf cyffredin yn erbyn cynnwys gwastraff o orsafoedd newydd oedd y dylid ceisio osgoi cynhyrchu gwastraff o'r fath – ac roedd rhai ymatebwyr yn dadlau mai'r opsiwn gwaredu gorau fyddai gwyrddroi polisïau sy'n arwain at greu rhagor o GUA.
1. 43 Tynnwyd sylw hefyd nad oes ffordd gredadwy arall o waredu gwastraff gorsafoedd ynni niwclear newydd. Felly pe bai'n cael ei dynnu o'r stocrestr waredu, byddai dal angen adeiladu cyfleuster CGD ar wahân ar gyfer gwastraff gorsafoedd ynni niwclear newydd.
1. 44 Yr unig opsiwn arall a gynigiwyd oedd creu storfa ger y safle, ger y wyneb. Hefyd, dylid cynnal ymchwil i ystyried pa gyfran o'r stocrestr fyddai'n addas ar gyfer ei waredu ger y wyneb neu drwy ddulliau amgylcheddol gyfrifol eraill o drin gwastraff (heb eu henwi).

Cwestiwn 11

A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth roi arian i gymunedau er mwyn talu cost cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Roedd 36% o'r ymatebwyr a phob un o'r rheini atebodd y cwestiwn, yn cytuno y dylai'r Llywodraeth roi arian i gymunedau i dalu am gost cymryd rhan mewn trafodaethau.

1. 45 Atebodd 13 o'r ymatebwyr y cwestiwn ac roedd pob un ohonynt yn gytûn y dylai'r Llywodraeth roi arian i gymunedau iddynt allu talu costau cymryd rhan mewn trafodaethau am y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.
1. 46 Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr ailadrodd y rhesymau a ddisgrifiwyd yn y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys:
 - Byddai'r arian yn hanfodol i feithrin hyder y cymunedau gwirfoddoli posibl a'u hymrymuso;
 - Rhaid wrth arbenigeddau i ddelio â chymhlethdodau'r prosiect; a
 - Byddai hyn yn caniatáu i gymunedau gymryd rhan effeithiol yn y broses gan esgor ar broses ystyrlon gyda chymunedau'n bartner cydradd ynddi.
1. 47 Cafwyd rhybuddion gan nifer o'r ymatebwyr, neu argymhellion ar gyfer y trefniadau, gan gynnwys:
 - Yr awdurdod lleol ddylai reoli'r trefniadau ar gyfer rhoi arian i gymunedau;
 - Dylid rhoi arian tebyg i gymunedau sy'n cynnal datblygiadau niwclear newydd;
 - Dylai'r trefniadau ariannu allu rhwystro'r Llywodraeth neu'r datblygwr rhag cael dylanwad amhriodol ar y gymuned;
 - Dylai'r arian gael ei wasgaru'n eang, gan gynnwys i sefydliadau amgylcheddol ac anllywodraethol; a
 - Ni ddylai cymunedau fod o dan bwysau i gymryd rhan yn y broses i geisio arian oherwydd angen am arian cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol.

Cwestiwn 12

A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ddarparu buddsoddiad ychwanegol ar gyfer cymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD a buddsoddiad cymunedol pellach os bydd cymuned yn ymrwmo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Roedd 92% o'r rheini a atebodd y cwestiwn yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ddarparu'r buddsoddiad ychwanegol i gymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau a buddsoddiad cymunedol ychwanegol os bydd y gymuned yn ymrwmo i gynnal CGD

1. 48 Atebwyd y cwestiwn hwn gan 12 (33%) o'r ymatebwyr. O'r rheini, cytunodd 11 (92% neu 31% o'r cyfanswm) mai'r Llywodraeth ddylai roi'r buddsoddiad ychwanegol i gymunedau gwirfoddoli posibl.
1. 49 Rhoddodd yr ymatebwyr nifer o resymau pam y dylai cymunedau gael buddsoddiad ychwanegol, gan gynnwys:
 - Dylai fod gan gymunedau Cymru yr hawl i elwa'r un faint ag y bydd yn cael ei gynnig i gymunedau yn Lloegr;
 - Fel cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cytuno i gynnal cyfleuster sydd o gymaint o bwys cenedlaethol – mae prosiectau seilwaith mawr eraill yn gysail i hyn;
 - Fel cydnabyddiaeth o effaith y gwaith adeiladu ac i gynnal mesurau i osgoi, lliniaru a digolledu cymunedau;
 - Byddai cymuned yn annhebygol o wirfoddoli heb y cynnig; ac
 - Fel iawndal am unrhyw effeithiau negyddol ar ddatblygiad economaidd neu harddwch yr ardal.
1. 50 Cafwyd sylwadau ychwanegol gan nifer o ymatebwyr ar y cwestiwn hwn. Ceir crynodeb ohonynt isod.
 - Dylid asesu lefelau digolledu a dylent fod yn gymesur â lefel yr effaith;
 - Ni ddylai'r buddsoddiad fod yn gysylltiedig â ffiniau artiffisial neu wleidyddol, ond â'r ardaloedd sy'n teimlo'r effaith. Er enghraifft, efallai na effeithir ar un rhan o'r awdurdod lleol o gwbl, tra effeithir yn drwm ar lwybrau cludo ac ati ond ddim o fewn ffin yr awdurdod sy'n ystyried cynnal y prosiect;

- Dylai'r buddsoddiad fod yn ychwanegol i'r buddiannau socio-economaidd a ddaw o gynnal CDG trwy gyfleoedd gwaith a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi;
- Rhaid crisialu union anghenion y gymuned yn glir oherwydd bydd y broses leoli'n fwy tebygol o fethu o beidio cael eglurder;
- Dylai'r buddsoddiad fod yn gymesur â hyd y trafodaethau, lefel yr ymrwymiad iddynt a faint o ymgynghori sydd ei angen (e.e. asesu'r effaith ar yr amgylchedd fel rhan o'r broses gynllunio).

1. 51 Hefyd, roedd un ymatebydd yn teimlo y dylid estyn buddsoddiad cyfatebol i bob cymuned all wirfoddoli i gynnal gorsaf ynni niwclear newydd.

1. 52 Roedd un ymatebydd yn anghytuno'n llwyr â rhoi arian i gymuned am na ddylid byth gwneud penderfyniad o'r fath am resymau ariannol rhag i gymunedau gyfnewid enillion ariannol tymor byr am broblemau tymor hir.

Sylwadau eraill

1. 53 Roedd y sylwadau ychwanegol a gafwyd nad oeddynt yn atebion i gwestiynau penodol yn ymwneud yn bennaf â pholisi Llywodraeth Cymru ar orsafoedd ynni niwclear newydd a'i pholisi ar waredu GUA trwy waredu daearegol. Roeddent yn cynnwys amheuan ynghylch diogelwch a thrafodwyd y rheini ym mhennod 2. Ceir ystyriaeth helaeth o'r pynciau hyn hefyd yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Adolygiad o Bolisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydredd Uwch ei Actifedd. Mynegodd ymatebwyr hefyd eu hanfodlonrwydd â'r cwestiynau a ofynnwyd neu â'r broses ymgynghori ei hun. Mynegwyd pryder hefyd pe na bai cymunedau'n gwirfoddoli y gallai Llywodraeth fynnu bod cymuned yn cynnal cyfleuster.

Pennod 2

Ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r prif themâu a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

- 2.1 Mae'r bennod hon yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y prif themâu a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Waredu Daearegol Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd: Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Gweithredu⁵ a gyhoeddwyd 19 Mai 2015 ("yr ymgynghoriad"). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ymatebion sydd wedi dod i law. Mae Pennod 1 uchod yn dadansoddi'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad.
- 2.2 Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Wrth gynnig ei sylwadau ar y prif themâu a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion sydd wedi dod i law a hefyd y cyngor arbenigol y mae wedi'i gael.
- 2.3 Pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi mabwysiadu polisi ar waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA) yn ddaearegol hynny yn sgil ymgynghoriad cynharach a gyhoeddwyd ar 23 Hydref 2014⁶ & ⁷. Yn yr ymgynghoriad, gofynnodd Llywodraeth Cymru am sylwadau ar ei chynigion ar gyfer trefnu cyfleuster CGD yng Nghymru sydd wedi'i gynnig yn wirfoddol gan gymuned.
- 2.4 Nid y polisi ar waredu daearegol ei hun na pholisi Llywodraeth Cymru ar roi nawdd i ddatblygu gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd gorsafoedd ynni niwclear presennol Cymru oedd pwnc yr ymgynghoriad. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi polisiâu ar y materion hyn. Er hynny, codwyd y pwyntiau hyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac roeddynt yn debyg i'r sylwadau roeddem eisoes wedi'u cael mewn ymateb i'r cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 29 Ebrill 2014⁸ a'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2014. Er nad oedd yr ymatebion hyn yn ymdrin â'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau a wnaed yn ofalus. Mewn llawer achos, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r un casgliadau (neu rai tebyg) â'r rheini a fabwysiadodd mewn

⁵ <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/geological-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-community-engagement-and-implementation-processes/?skip=1&lang=cy>

⁶ <http://gov.wales/docs/desh/policy/150519-policy-on-the-management-and-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-cy.pdf>

⁷ <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/disposal-higher-activity-radioactive-waste/?skip=1&lang=cy>

⁸ <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/disposing-of-higher-activity-radioactive-waste/?skip=1&lang=cy>

ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law i'r ymgynghoriadau cynharach. Gweler casgliadau Llywodraeth Cymru ym mharagraffau "" i ""

Themâu sy'n codi nad ydynt yn ymateb i gwestiynau yn yr ymgynghoriad

2.5 Nid oes modd cael gwared ar wastraff ymbelydrol.

- a. *Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol yn ynysu'r gwastraff rhag wyneb y ddaear.*
- b. Mae Llywodraeth Cymru'n anghytuno â'r farn ei bod yn amhosibl gwaredu ymbelydredd uwch ei actifedd (GUA) a gweddillion tanwydd yn ddiogel. Roedd CoRWM 1 wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli GUA a gweddillion tanwydd yn y dyfodol yn fanwl ac yn helaeth cyn cynghori'r Llywodraeth y byddai gwaredu daearegol yn opsiwn rheoli diogel ac yn wir, mai hwnnw fyddai'r opsiwn rheoli gorau. Mae'r rheoleiddwyr (EA ac ONR) wedi datgan, ar sail adolygiad o achos diogelwch system gwaredu generig RWM, nad oes rheswm i gredu ar yr hyn o bryd pam na ellid cynnig achos diogelwch gweithredol, amgylcheddol a thrafnidiol o blaid cyfleuster gwaredu daearegol (CGD). Mae Llywodraeth Cymru yn nodi hefyd bod gwledydd o gwmpas y byd sy'n cynnal rhaglenni gwaredu gwastraff ymbelydrol a gweddillion tanwydd hir-oes hwythau'n gwaredu eu gwastraff trwy ei gladdu (gweler paragraff 4.11 yn Atodiad 3 datganiad polisi Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2015⁹).
- c. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ellir ei waredu dros y tymor hir gan fod GUA yn para'n niweidiol am gyfnod hir iawn.*
- d. Mae'r termau storio a gwaredu neu gladdu yn golygu pethau penodol iawn yn y ddogfen hon, yn unol â Chyfarwyddeb SF&RW¹⁰:

Erthygl 3 (3): Mae gwaredu neu gladdu ("disposal") yn golygu gosod gweddillion tanwydd neu wastraff ymbelydrol mewn cyfleuster heb fwriad i'w mofyn;

Erthygl 3 (14): Mae "storage" (storio) yn golygu dal gweddillion tanwydd neu wastraff ymbelydrol mewn cyfleuster gyda'r bwriad o'i mofyn.
- e. Mae gwaredu felly'n golygu na fydd disgwyl i genedlaethau'r dyfodol ymdrin ymhellach â'r gwastraff.
- f. Er y gellid gwneud trefniadau ar gyfer monitro a/neu godi'r gwastraff, o leiaf am gyfnod, y polisi sy'n sail i raglen gwaredu daearegol Llywodraeth y DU a rhaglenni gwledydd eraill o gwmpas y byd, yw y

⁹ <http://gov.wales/docs/desh/policy/150519-policy-on-the-management-and-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-cy.pdf>

¹⁰ <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32011L0070&qid=1397211079180>

byddai gwastraff ond yn cael eu rhoi mewn GDF os dangosir y gellir ei waredu yn ddiogel, ac felly, na ddylai fod angen ymdrin â'r gwastraff ar ôl ei gladdu ac yn bendant, ddim ar ôl cau'r cyfleuster. Fodd bynnag, ar gyfer y cyfnod o weithredu, gwastraff sydd wedi cael ei osod mewn GDF gellid eu hadfer os oedd rheswm cryf i wneud hynny Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo hyn.

- g. Bydd angen achos diogelwch ar y rheoleiddwyr sy'n cadarnhau na fydd bwriad i ymdrin â'r gwastraff ar ôl cau'r cyfleuster. Bydd y rheoleiddwyr yn adolygu'r trefniadau ar gyfer monitro a/neu mofyn y gwastraff i wneud yn siŵr nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar yr achos diogelwch o blaid unrhyw CGD. Bydd y rheoleiddwyr am i'r achos diogelwch hwnnw ddangos bod y modd y mae'r gwastraff wedi'i amgáu a'i ynysu yn cynnig amddiffyniad tymor hir fydd yn rhwystro lefelau niweidiol o ymbelydredd rhag cyrraedd wyneb y ddaear.
- h. *Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am ddiogelwch tymor hir gwastraff a waredir yn ddaearegol. Roedd rhai ymatebwyr yn ofidus hefyd ynghylch defnyddio modelau cyfrifiadurol i ddilysu gwaredu daearegol.*
- i. Bydd angen i'r datblygwr (RWM Ltd) roi achos diogelwch llawn a boddhaol i'r rheoleiddwyr, gyda thystiolaeth i'w gefnogi, cyn adeiladu cyfleuster CGD. Modelau cyfrifiadurol yw'r ffordd arferol o gloriannu senarios o fewn prosiectau diwydiannol cymhleth, gan gynnwys senarios mwy eithafol a llai tebygol. Bydd gofyn i'r rheoleiddwyr fod yn fodlon bod y broses yn ddigon trylwyr cyn rhoi sêl eu bendith ar gyfer adeiladu neu weithredu cyfleuster CGD.
- j. *Dywedodd rhai ymatebwyr fod y ddamwain yn y Waste Isolation Pilot Plant (WIPP) yn New Mexico, UDA yn 2014 yn dangos fod gwaredu daearegol yn beryglus.*
- k. Ym mis Chwefror 2014 yn WIPP, cafodd deunydd ymbelydrol ei ryddhau i'r amgylchedd a daeth nifer o weithwyr i gysylltiad ag ymbelydredd (er i brofion ddangos na chafodd neb fwy o ymbelydredd nag y byddent wedi'i gael o gael pelydr X ar eu bron). Dangosodd ymchwiliad mai ffynhonnell yr ymbelydredd oedd y deunydd pacio a oedd yn amgáu rhai o'r pecynnau gwastraff a oedd wedi'u hanfon i'r cyfleuster ar gyfer eu gwaredu, hynny am ei fod wedi'i wneud o ddeunydd anaddas. Achosodd hynny dân a thorrwyd un o'r pecynnau. Gwelodd ymchwiliad broblemau gyda'r hyfforddiant a roddwyd i staff, ag agweddau ar redeg a rheoli Labordy Cenedlaethol Los Alamos a rhai agweddau ar redeg yr WIPP. Fel gyda phob achos o'r math hwn, mae gwersi y gall y diwydiant niwclear cyfan eu dysgu, fodd bynnag, mae'r digwyddiad wedi peidio nodi unrhyw faterion sy'n herio'r sefyllfa sydd gwaredu daearegol yw'r opsiwn a ffafrir ar gyfer rheoli gwastraff GUA.

- l. *Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai daeargrynfeydd neu groniadau nwy wneud gwaredu daearegol yn beryglus.*
- m. Mynegwyd pryderon ynghylch effaith daeargrynfeydd yn yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth, a chysylltodd Llywodraeth Cymru â CoRWM i ofyn ei farn. Cyngor CoRWM bryd hynny oedd:

“Approval for a CGD under UK regulations would require demonstration of a robust safety case. The production of CO2 and methane within the waste would be considered as part of the design as would vulnerability to earth movements.

In conclusion, CoRWM’s position remains that “geological disposal remains the best available approach for the long-term management when ... compared with the risks associated with other methods of management” (CoRWM Doc 700 Recommendation 1).

2.6 Defnyddio'r ddaeareg orau

- a. *Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel (MRWS) ystyried lleoli CGD yn yr ardaloedd lle ceir y ddaeareg fwyaf addas neu orau yn unig, a pheidio â dibynnu ar gymysgedd o rwystrau naturiol a rhwystrau wedi'u hadeiladu.*
- b. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r farn hon. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hefyd farn CoRWM a'r rheoleiddwyr sy'n dweud y byddai pob prosiect gwaredu daearegol ym mhob cyd-destun yn cynnwys amrywiaeth o rwystrau i rwystro'r ymbelydredd rhag dianc i'r amgylchedd: ffurf y gwastraff, y deunydd pacio, rhwystrau daearegol a rhwystrau wedi'u hadeiladu. Derbynnir ar y lefel ryngwladol, er enghraifft yng nghanllawiau'r IAEA¹¹, fod angen defnyddio mwy nag un math o rwystr. Mater i'r datblygwyr fydd argyhoeddi'r rheoleiddwyr bod y cymysgedd o rwystrau a gynigir yn yr achos diogelwch ar gyfer unrhyw gyfleuster CGD yn bodloni'r safonau angenrheidiol a'u bod yn ynysu ac yn amgáu at lefel ddiogel tymor hir. Bydd yr achos diogelwch yn ystyried hefyd addasrwydd daeareg y safle dan sylw trwy gynnal profion helaeth, gan gynnwys profion turio.
- c. Dywed CoRWM hefyd:

“CoRWM has repeatedly emphasised that geology has to be considered in the context of, and as one element contributing to, the safety case. This will inevitably involve consideration of both geology and engineering factors and, if it is not possible to make a safety case in a particular geological setting (i.e. the geology is not 'good' enough), this will become apparent.”

¹¹ <http://www-pub.iaea.org/books/IAEABooks/8535/Geological-Disposal-Facilities-for-Radioactive-Waste-Specific-Safety-Guide>

- d. *Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y dylai Llywodraeth Cymru adael y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel nes bod y rhaglen yn cyfyngu ei hun i ystyried y ddaearg orau yn unig.*
- e. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai pobl Cymru ar ei hennill pe bai'n gadael y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel gan y byddai hynny'n ei rhwystro rhag sicrhau bod y rhaglen yn ystyried lles pobl Cymru. Byddai gadael y rhaglen yn anghyson hefyd â Llywodraeth Cymru pe bai'n mabwysiadu polisi o blaid gwaredu daearegol fel y ffordd orau tymor hir o reoli GUA a gweddillion tanwydd.

2.7 Dylid cadw gwastraff ymbelydrol ar yr wyneb

- a. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi o reoli GUA ar wyneb neu ger wyneb y ddaear (tebyg i bolisi Llywodraeth yr Alban o barhau i'w reoli ar y wyneb neu ger y wyneb¹².)*
- b. Mae Llywodraeth Cymru wedi sylwi bod argymhelliad CoRWM 1 mai gwaredu daearegol yw'r opsiwn tymor hir gorau ar gyfer rheoli GUA a gweddillion tanwydd wedi'i gadarnhau gan CoRWM 2¹³. Gwaredu daearegol yw'r opsiwn sydd wedi'i fabwysiadu gan wledydd trwy'r byd sy'n cael gwared ar GUA, gan gynnwys gwledydd fel yr Almaen nad ydynt yn bwriadu defnyddio pŵer niwclear yn y dyfodol.
- c. Ym marn CoRWM, rhan hollbwysig o'r gwaith o reoli GUA cyn ei gladdu yw ei storio'n ddiogel. Mae GUA yn cael ei storio'n ddiogel ar y wyneb ar hyn o bryd (e.e. y storfa ILW yng ngorsaf ynni niwclear Trawsfynydd). Fodd bynnag, nid yw parhau i'w storio fel hyn yn opsiwn ar gyfer ei waredu a byddai dal gofyn i genedlaethau'r dyfodol ymdrin â'r gwastraff. Mater wrth gwrs i bob gweinyddiaeth yn y DU yw penderfynu pa bolisi sy'n ateb gofynion ei phobl orau. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael iddi, mae Llywodraeth Cymru'n credu y byddai opsiwn gwaredu parhaol yn diogelu cenedlaethau'r dyfodol yn well ac y byddai gweithredu nawr yn decach gan na fyddai'n gadael penderfyniadau i genedlaethau'r dyfodol eu gwneud.
- d. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod rheoli GUA ar wyneb y ddaear yn cynnig ateb tymor hir mwy diogel i'r problemau hyn na gwaredu GUA yn ddaeargol.
- e. *Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai storfeydd ar yr wyneb fod wrth ymyl y safle er mwyn osgoi cludo gwastraff ymbelydrol yn bell.*

¹² Scottish Government *Scotland's Higher Activity Radioactive Waste Policy 2011* (Saesneg yn unig) <http://www.scotland.gov.uk/Topics/Environment/waste-and-pollution/Waste-1/16293/higheractivitywastepolicy/hawpolicy2011>

¹³ CoRWM Statement on Geological Disposal. CoRWM doc 3122, July 2013 (Saesneg yn unig) <https://www.gov.uk/government/publications/statement-on-geological-disposal>

- f. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno na ddylid cludo gwastraff ymbelydrol yn bell. Serch hynny, efallai y bydd angen ei gludo rywfaint er mwyn prosesu'r gwastraff yn ffurfiau mwy sefydlog a diogel ar gyfer ei storio dros dro neu ei waredu'n barhaol. Mae'r gweithgareddau hyn a'r gwaith cludo cysylltiedig felly'n esgor ar fantais bendant. Ceir trefniadau ffurfiol ar gyfer cludo gwastraff ymbelydrol a deunydd ymbelydrol eraill ac mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod deunydd ymbelydrol wedi'i gludo'n ddiogel ledled y byd ers dros 60 mlynedd. Mae'r rheolau ar gyfer cludo deunydd ymbelydrol yn ddiogel yn cael eu llywodraethu gan safonau rhyngwladol a Chyfarwydddebau Ewropeaidd sydd wedi'u troi'n ddeddfwriaeth Brydeinig. Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) sy'n rheoleiddio cludo gwastraff ymbelydrol yn y DU.

2.8 Ni ddylid gwaredu gwastraff yn ddaearegol ar hyn o bryd.

- a. *Dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad nawr yw'r amser i Lywodraeth Cymru benderfynu ar y mater gan na chaiff y rhan fwyaf o'r gwastraff o orsafoedd ynni niwclear Cymru ei gynhyrchu tan y caiff y gorsafoedd sydd gennym eu datgymalu. Roedd ymatebwyr eraill yn credu y byddem, trwy wneud y penderfyniadau heddiw, yn rhwystro cenedlaethau'r dyfodol rhag penderfynu sut i ddelio â phroblem gwastraff ymbelydrol. Roedd rhai'n teimlo hefyd y byddai penderfynu ar y mater nawr yn golygu na chawn ddefnyddio technolegau newydd y dyfodol i reoli neu waredu gwastraff ymbelydrol.*
- b. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried mae oedi penderfyniad yn osgoi ysgwyddo'r cyfrifoldeb nawr am wastraff a grëwyd gan genedlaethau heddiw a ddoe, sef y rhai sydd wedi elwa ar drydan a chyfleoedd economaidd y gorsafoedd niwclear sy'n bod heddiw. Mae pwysigrwydd tegwch rhwng y cenedlaethau yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cymru ar reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol uchel ei actifedd a hynny hefyd yw thema ganolog y Gyfarwydddeb SF&RW.
- c. Nid yw polisi o blaid gwaredu daearegol yn golygu na all cenedlaethau'r dyfodol fabwysiadu technolegau newydd os bydd eu manteision ar y pryd yn ategu neu'n rhagori ar waredu daearegol. Er y gallai dulliau newydd o reoli GUA a gweddillion tanwydd gael eu datblygu yn y dyfodol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweld tystiolaeth sy'n awgrymu na fyddai opsiynau rheoli GUA a gweddillion tanwydd yn y dyfodol yn cynnwys gwaredu daearegol fel o leiaf rhan o'r dewis.
- d. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oes angen mabwysiadu polisi gwaredu gan fod y gwastraff eisoes yn cael ei storio'n ddiogel ar hyn o bryd ac at y dyfodol rhagweladwy.*
- e. Er bod GAU eisoes yn cael ei storio'n saff at y dyfodol rhagweladwy, bydd GAU yn para'n niweidiol o bosibl am gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Mae hyn ymhell yn fwy nag unrhyw gyfnod y gellid rhagweld sefydliad yn ei reoli a mwy nag unrhyw gyfnod y gallai fod yn

bosib rhagweld peryglon trychinebau naturiol fel llifogydd neu newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai gwaredu daearegol yn hytrach na rheoli gwastraff ar yr wyneb yn ffordd well o osgoi'r risgiau hyn a'r rheini a allai godi yn y dyfodol pell oherwydd e.e. chwalfa cymdeithas, y rhyfel ar frawychiaeth.

- f. *Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r galw am foratoriwm ar waredu daearegol tan y caiff y nifer fawr o broblemau technegol sy'n gysylltiedig â gwaredu daearegol eu datrys.*

- g. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod llawer o gwestiynau (tua 900) wedi'u codi, dros gyfnod estynedig, drwy randdeiliaid ac yn rhagweithiol gan y datblygwr, RWM Ltd¹⁴, mewn cysylltiad â gwaredu daearegol. Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod RWM Ltd, yn ceisio ateb y cwestiynau hyn, er bod rhai ohonynt yn ymwneud â safleoedd penodol ac y byddai'n rhaid ymchwilio i safleoedd penodol i'w hateb. RWM wedi cadw cofrestr o'r materion hyn¹⁵Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod y rheoleiddwyr am weld pob problem yn cael ei datrys yn foddhaol cyn cymeradwyo cyfleuster CGD. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn felly na ddeuai unrhyw fudd o osod moratoriwm ar waredu daearegol a'r cyfan a wnâi fyddai arafu'r gwaith o gynnig ateb i broblemau rheoli GUA a gweddillion tanwydd yn y dyfodol, gan adael penderfyniadau a beichiau i genedlaethau'r dyfodol.

2.9 Polisi Llywodraeth Cymru ar orsafoedd ynni niwclear newydd

- a. *Roedd nifer arwyddocaol o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd gorsafoedd presennol Cymru.*

- b. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod llawer o amrywiaeth barn ynghylch ynni niwclear a gorsafoedd niwclear newydd a bu'n bwnc ymatebion i ymgynghoriadau cynharach gan Lywodraeth Cymru ar reoli a gwaredu GAU.

- c. Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'i rhesymau dros gefnogi gorsafoedd ynni niwclear newydd yn ei datganiad polisi 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel'¹⁶ sy'n cydnabod pwysigrwydd codi gorsaf niwclear newydd yn Wylfa i ddarparu ffynhonnell gyson a dibynadwy o ynni carbon isel i ategu datblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Byddai ei datblygu yn dod â manteision tymor hir sylweddol hefyd i economi Cymru.

¹⁴ Radioactive Waste Management Limited (RWM, y datblygwr). RWM yw is-gwmni sy'n eiddo llwyr i NDA, sy'n gyfrifol am weithredu'r rhaglen diogel, cynaliadwy, sy'n dderbyniol i'r cyhoedd daearegol waredu.

¹⁵ <http://www.nda.gov.uk/rwm/issues/>

¹⁶ Llywodraeth Cymru - Ynni Cymru: newid i economi carbon isel, 2012
<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/energywales/?lang=cy>

- d. Cydnabu Llywodraeth Cymru yn y papur ymgynghori y byddai gorsafoedd niwclear newydd, gan gynnwys Wylfa Newydd, yn creu gwastraff actifedd uchel a gweddillion tanwydd. Un o'r dadleuon sbardunodd polisi Llywodraeth Cymru ar reoli GAU a gweddillion tanwydd yw'r angen am gysondeb rhwng ei chefnogaeth dros orsafoedd niwclear newydd ar safleoedd gorsafoedd presennol Cymru a'i pholisi ar gyfer ymdrin â'r gwastraff y byddant yn ei gynhyrchu.
- e. Fodd bynnag, hyd yn oed os na chodir gorsafoedd newydd, rydym eisoes wedi etifeddu llawer o wastraff ymbelydrol dros y 60 mlynedd diwethaf. Bydd yn rhaid gwaredu'r gwastraff hwnnw i ddiogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol. Mae tegwch rhwng y cenedlaethau'n golygu bod angen gwaredu'r gwastraff hwn mewn ffordd ddiogel rhag i genedlaethau'r dyfodol orfod delio â'i reoli.

2.10 *Gorfodi gwaredu daearegol*

- a. *Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU orfodi Cymru i waredu gwastraff yn ddaearegol.*
- b. Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru, gan gynnwys gwaredu daearegol, yn bwnc wedi'i ddatganoli: mae'n fater polisi i Lywodraeth Cymru ac nid i Lywodraeth y DU ydyw.
- c. Yn ei pholisi, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir bod yn rhaid gwirfoddoli i gynnig claddu gwastraff yng Nghymru, hynny'n dilyn trafodaethau brwd â chymuned neu gymunedau a fydd wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol i allu cyfrannu'n wybodus.
- d. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi egwyddor gwirfoddoli i leoli CGD trwy gymryd rhan barod mewn trafodaethau heb ymrwymiad ymlaen llaw i leoli cyfleuster CGD. Bydd cymunedau'n rhydd hefyd i dynnu o'r trafodaethau unrhyw bryd hyd at y prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned. Os bydd cymuned yn dewis gadael y trafodaethau, daw'r broses yn yr ardal honno i ben.
- e. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi clustnodi nac ystyried unrhyw safleoedd nac ardaloedd yng Nghymru na thros y ffin ar gyfer cyfleuster CGD.

2.11 *Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am wastraff Cymru*

- a. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am yr holl wastraff ymbelydrol a gweddillion tanwydd sy'n deillio o Gymru, gan gynnwys y gwastraff sydd eisoes wedi'i gludo ar gyfer ei reoli yn Lloegr.*

- b. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y farn hon yn camddeall safbwynt Llywodraeth Cymru yn y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel. Mae'r cyfrifoldeb am bolisi gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Nid yw cyfrifoldeb am bolisi yn golygu bod yn rhaid i wastraff sy'n cael ei wneud yng Nghymru yn gorfod cael ei waredu yng Nghymru: er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi strategaethau pedair gwlad y DU ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol lefel isel (GLI). Yr unig wastraff ymbelydrol y ceir ei wared yng Nghymru yw symiau bach o wastraff ymbelydrol lefel isel iawn (GLII, fel arfer ofyrôls, cadachau ac ati ag ychydig iawn o lygredd ymbelydrol arnynt) y gellir cael gwared arnynt gyda thrwydded amgylcheddol mewn e.e. safleoedd tirlenwi. Anfonir pob GLI i Ystorfa Gwastraff Lefel Isel y DU ger Drigg yn Cumbria neu safleoedd trin neu waredu addas a thrwyddedig eraill yn Lloegr.
- c. Yn yr un modd, caiff GAU sy'n deillio o weithgareddau yng Nghymru (fel y gwastraff ymbelydrol lefel canolig (GLC) sydd ar hyn o bryd yn cael ei storio yn y storfa GLC yn Nhrawsfynydd) ei anfon yn y pen draw ar gyfer ei waredu mewn cyfleuster yn y DU. Gan ddibynnu ar ffrwyth trafodaethau â chymuned sy'n barod i'w dderbyn a chymeradwyaeth i'r achos diogelwch, gallai hwnnw fod yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, a byddai'n cymryd gwastraff o Gymru a Lloegr a'r symiau bychain o GLI a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon.
- d. *Roedd rhai gohebwy'r o'r farn y dylai fod gofyn ar Lywodraeth Cymru i waredu gwastraff o Gymru yng Nghymru.*
- e. Fel y dywedwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru'n rhan o raglen sy'n gwaredu gwastraff yn ddaearegol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru o blaid gwirfoddoli i waredu gwastraff yn ddaearegol trwy drafodaethau â chymunedau fyddai'n barod i'w dderbyn. Byddai gorfodi Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfleuster CGD yng Nghymru yn anghyson â'r ddwy ystyriaeth uchod.

2.12 *Pryderon ynghylch natur y swyddi y byddai cyfleuster CGD yn eu creu.*

- a. Mynegwyd pryderon mai dim ond ychydig o swyddi a'r rheini'n swyddi ansawdd isel, y byddai cyfleuster CGD yn eu cynnig i'r gymuned leol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod datblygu, gweithredu a chau GDF yn cymryd dros ganrif ac amcangyfrifir y bydd yn cynhyrchu cyfartaledd o 570 o swyddi uniongyrchol dros gyfnod y prosiect, gyda niferoedd y gweithlu yn codi i tua 1,000 yn ystod y cyfnod adeiladu cychwynnol¹⁷ Byddai rhyw dri chwarter y swyddi'n rhai rheoli, technegol neu wyddonol. Fel gorsafoedd ynni niwclear Cymru, byddai cyfleuster CGD yn cynnig nifer arwyddocaol o gyfleoedd gwaith da i bobl leol. Bydd y cyfleoedd hynny'n cynyddu dros amser, /yn uniongyrchol ac yn ehangach i'r economi leol.

¹⁷ NDA. Geological disposal: Manpower and skills requirements 2012 update. November 2012 (Saesneg yn unig)

2.13 Casgliad

Mae'r materion a drafodir uchod yn cyfeirio at benderfyniadau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u gwneud. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus iawn y pwyntiau a godwyd fel ymateb i'r ymgynghoriad ond yn ei barn hi, nid ydynt yn dod ag unrhyw ystyriaethau newydd gerbron sy'n rhoi unrhyw reswm i Lywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniadau ar y materion hyn.

Ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad

2.14 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus y pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad. Disgrifir ei hystyriaethau isod ac fe'u hadlewyrchir hefyd yn y datganiad polisi¹⁸ sy'n disgrifio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer lleoli cyfleuster CGD a'r trefniadau ar gyfer gweithio gyda chymunedau sy'n gwirfoddoli ei leoli.

2.15 Trefniadau lleoli cyfatebol

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu prosesau lleoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cyd-fynd â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ar yr amod eu bod yn gyson ag anghenion cymunedau yng Nghymru?

Rhowch eich rhesymau.

Os ydych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gwahanol o weithredu nodwch pa drefniadau amgen a fyddai'n briodol a pha fanteision y byddent yn eu cynnig, yn eich barn chi.

- a. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd Gwestiwn 1 o blaid mabwysiadu prosesau lleoli yng Nghymru a fyddai'n gydnaws â'r rheini sy'n cael eu mabwysiadu yn Lloegr a Gogledd Iwerddon cyn belled â'u bod yn gyson ag anghenion cymunedau Cymru. Codwyd pryderon ynghylch meysydd lle mae Cymru'n wahanol i e.e. Lloegr fel nuclear
- b. au lleol un haen, trefniadau cynllunio gwahanol a'r angen i ystyried y Gymraeg.
- c. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gwahaniaethau rhwng Cymru ac e.e. Lloegr. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru'n gweld manteision creu strwythurau gwahanol yng Nghymru cyn belled â bod y trefniadau sy'n cael eu mabwysiadu yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gydnaws neu y gellir eu gwneud yn gydnaws ag anghenion cymunedau Cymru. Nid yw trefniadau cydnaws yn golygu trefniadau union yr un peth o reidrwydd. Ar ôl ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 1, mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod o'r farn, sef y farn a ffefrir yn yr ymgynghoriad, ei bod yn bosibl creu trefniadau sy'n gydnaws ac addas. Bydd yn gweithio gyda'r Gweithgor Cynrychioli Cymunedau (CRWG) a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod anghenion penodol cymunedau Cymru ac anghenion Cymru yn gyffredinol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu trefniadau ymgysylltu â chymunedau a'r prosesau lleoli. Os yw'n fodlon y gellid creu trefniadau addas, bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ymhellach ar gynigion manwl.

¹⁸ <http://gov.wales/docs/desh/policy/150519-policy-on-the-management-and-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-cy.pdf>

- d. Roedd yr ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu prosesau lleoli a threfniadau ymgysylltu â sy'n gydnaws â'r rheini a fabwysiedir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gwrthwynebu gwaredu daearegol hefyd fel ffordd i reoli GAU, gan ffafrio ei storio a'i reoli ar wyneb y ddaear. Esbonnir rhesymau Llywodraeth Cymru dros beidio â mabwysiadu hynny ym mharagraff 2.7 a-d uchod.

2.16 Gwirfoddoli a hawl i dynnu'n ôl

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno mai dim ond gyda chymunedau sy'n gwirfoddoli ac sy'n barod i ddechrau trafodaethau, heb wneud ymrwymiad ymlaen llaw, ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, y dylid bwrw ymlaen â gwaredu daearegol?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylai fod gan gymunedau hawl i dynnu'n ôl o drafodaethau y gellir ei harfer unrhyw bryd cyn cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylid cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned ar ôl cynnal trafodaethau a rhoi gwybodaeth i gymuned a allai gynnig lleoliad a chyn i'r gwaith o adeiladu CGD ddechrau?

Rhowch eich rhesymau

Cwestiwn 5: Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion adeiladol ynglŷn â sut y dylai'r prawf cyhoeddus o gefnogaeth y cyhoedd fod wedi'i strwythuro yng Nghymru.

- a. Codwyd set gyffredin o bwyntiau yng Nghwestiynau 2 i 5 ynghylch polisi Llywodraeth Cymru na ddylid cael bwrw ymlaen â gwaredu daearegol heb ymgysylltiad gwirfoddol cymunedau neu gymuned sy'n ystyried cynnig lleoliad. Dylai cymunedau felly gael trafod y posibilrwydd o dderbyn cyfleuster CGD heb orfod ymrwymo ymlaen llaw. Dylai fod gan gymunedau hefyd yr hawl i adael trafodaeth a chyn gwneud penderfyniad terfynol, dylid cynnal prawf o gefnogaeth y gymuned.
- b. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd Gwestiynau 2 i 5 yn cytuno na ddylai gwaredu daearegol gael mynd yn ei flaen yng Nghymru heb ymgysylltiad gwirfoddol y cymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad, gyda'r hawl i adael trafodaeth a chadarnhad unrhyw amser cyn derfynol prawf o gefnogaeth y gymuned i'w hamddiffyn.

- c. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru aros tan i CRWG orffen ei waith cyn dechrau meddwl am ei threfniadau ei hun ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Mae Llywodraeth Cymru'n credu serch hynny y byddai'n debygol o fod yn fwy cynhyrchiol ac effeithiol pe bai'n cymryd rhan lawn yn CRWG. Ni fyddai gwneud hynny'n rhwystro Llywodraeth Cymru rhag cynnig nac ymgynghori ar gynigion i Gymru allai fod yn wahanol i'r rheini a gynigir ar gyfer gwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Mae paragraff 2.15b uchod yn datgan nad oes angen i drefniadau Cymru fod yn gymwys yr un peth â rhai Lloegr neu Ogledd Iwerddon i fod yn gydnaws.
- d. Mynegodd rhai ymatebwyr eu pryder y gallai cyfleuster CGD gael ei orfodi ar gymuned neu gymunedau yng Nghymru naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gan Lywodraeth y DU. Trafodir hyn ym mharagraff 2.10 uchod; un o amodau polisi Llywodraeth Cymru ar waredu daearegol i gynllun o'r fath gael mynd yn ei flaen yw bod cymuned neu gymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad yn gwneud hynny'n wirfoddol.
- e. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid cynnal prawf o gefnogaeth y gymuned yn fuan yn y broses i gadarnhau y dylid bwrw ymlaen â thrafodaethau. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r farn hon gan y byddai hynny'n golygu gwneud penderfyniad cyn bod yr holl wybodaeth am addasrwydd y safle, agweddau gweithredol ac ati ar gael. At hynny, nid yw Llywodraeth Cymru'n teimlo chwaith y byddai gwneud penderfyniad buan yn cryfhau'r mesurau i amddiffyn y gymuned gan gynnwys yr hawl i dynnu'n ôl.
- f. Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig y dylai cymuned gael gadael y drafodaeth unrhyw bryd gan gynnwys wrth adeiladu'r CGD. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen diogelu buddiannau'r gymuned fyddai'n derbyn y gwastraff ond bod angen diogelu buddiannau'r gymdeithas ehangach hefyd. Mae codi cyfleuster CGD yn golygu buddsoddiad sylweddol ac i roi hwnnw, rhaid wrth sicrwydd bod y prosiect am fynd yn ei flaen. Mae'r prawf o gefnogaeth y gymuned a sêl bendith y rheoleiddwyr i achos diogelwch y datblygwr ill dau yn rhan o'r broses o roi'r sicrwydd hwnnw. Dyna pam na fydd hawl tynnu'n ôl ar ôl y prawf o gefnogaeth y gymuned. Dim ond wedi i'r gymuned gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arni i wneud penderfyniad y caiff y prawf ei gynnal. Ond unwaith y caiff ymrwymiad ei wneud trwy'r prawf, collir yr hawl i dynnu'n ôl. Bydd hynny'n rhoi'r sicrwydd i'r prosiect allu mynd yn ei flaen, yn amodol ar gynllunio a rheoliadol cymeradwyaethau, a bydd yn diogelu'r buddsoddiad o arian cyhoeddus fydd ei angen. Er gwaethaf y prawf cyhoeddus o gefnogaeth, bydd y rheoleiddwyr yn dal i allu atal yr adeiladu a gweithredu GDF os yw'r amgylchiadau yn ei gwneud yn ofynnol.
- g. Mae Llywodraeth Cymru felly'n cadarnhau na chaiff penderfyniad terfynol i ganiatáu gwaredu gwastraff yn ddaearegol yng Nghymru ei wneud heb i'r gymuned gymryd rhan wirfoddol mewn trafodaethau a chael gadael y trafodaethau hynny unrhyw bryd a chynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned. Gallai'r trafodaethau hynny bara degawd pryd y byddai gweithgareddau dewis safle amser a chymeriadau safle hefyd yn cael ei gynnal a chadarnhad, cyn y caiff CGD ei adeiladu yng Nghymru felly, rhaid wrth

gefnogaeth y gymuned yn y prawf a sêl bendith y rheoleiddwyr i achos diogelwch y datblygwr.

- h. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r awgrymiadau ar gyfer dylunio'r prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned gan gynnwys refferendwm syml. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y dylai cymunedau gael ystod lawn o wybodaeth gywir a ffeithiol o blaid ac yn erbyn cynnal cyfleuster CGD cyn cynnal y prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned. Bydd yn ystyried yr awgrymiadau hyn wrth weithio gyda CRWG.

2.17 Cael at wybodaeth

Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, a ddylid rhoi cyfle i gymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad weld gwybodaeth megis y sgrinio daearegol cenedlaethol a gwybodaeth am wyddoniaeth a pheirianeg gwaredu daearegol cyn iddynt gynnal trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, a ddylai cymunedau sy'n trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD allu ceisio cyngor arbenigol fel endidau annibynnol yn ystod y trafodaethau hynny pan fyddant yn ystyried bod ei angen?

Rhowch eich rhesymau.

- a. Roedd Cwestiynau 6 a 7 yn sôn am sicrhau bod gwybodaeth a chyngor arbenigwyr annibynnol ar gael i gymunedau er mwyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniadau doeth ynghylch cymryd rhan mewn trafodaethau ac am gael cyngor arbenigwyr annibynnol wrth i'r trafodaethau hynny fynd yn eu blaen.
- b. Roedd y rhan fwyaf a atebodd Gwestiynau 6 a 7 yn cytuno y dylai cymunedau gael cyfle i weld gwybodaeth fel yr adroddiadau sgrinio daearegol cenedlaethol a gwybodaeth am wybodaeth a pheirianeg gwaredu daearegol cyn iddynt gynnal trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster CGD.
- c. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid rhoi cyfle hefyd i gymunedau geisio cyngor arbenigwyr annibynnol yn ystod y trafodaethau gyda'r datblygwr a Llywodraeth Cymru.
- d. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni a fyddai'r cyngor yn wirioneddol annibynnol. Roedd ymatebwyr eraill yn credu y dylai'r cyngor adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys barn gwrthwynebwyr gwaredu daearegol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r cymunedau eu hunain ddylai ddewis y ffynonellau cyngor ac y dylai'r cyngor fod yn annibynnol, heb gefnogi'r naill safbwynt na'r llall. Bydd cyngor diduedd o ffynonellau

niwtral cymwys yn fwy tebygol o helpu cymunedau i wneud penderfyniadau doeth fel rhan o'r broses drafod.

- e. Ar ôl ymgynghori felly, mae Llywodraeth Cymru'n cadarnhau y bydd unrhyw drefniadau i ymgysylltu â chymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad ar gyfer CGD yng Nghymru yn cynnwys cyfleoedd i gymunedau gael cyngor arbenigwr annibynnol i'w helpu i gymryd rhan lawn yn y trafodaethau ac i wneud y penderfyniadau gwybodus yn ôl y gofyn o ran cyfathrebu gydag ac yn meithrin ymddiriedaeth gyda chymuned.

2.18 Stocrestr o wastraff i'w waredu

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno y dylid nodi'r stocrestr o wastraff i'w waredu cyn cynnal trafodaethau ac y dylai'r gymuned gytuno ar unrhyw newidiadau cyn ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno y dylai'r stocrestr o wastraff i'w waredu gynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 10: Os nad ydych yn cytuno y dylid cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ar y stocrestr o wastraff i'w waredu pa opsiwn gwaredu fyddai'n well gennych ar gyfer gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?

Rhowch eich rhesymau.

- a. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen eglurder ar gymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad ynghylch y gwastraff y gellid ei waredu mewn cyfleuster CGD. Dylai fod yn rhan o'r wybodaeth ddylai fod ar gael iddynt.
- b. Roedd Cwestiynau 8 i 10 yn ymwneud â'r stocrestr o wastraff i'w waredu ac a ddylid cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd. Mae'r stocrestr hanesyddol yn cynnwys y GAU sy'n deillio o'r 60 mlynedd o weithgarwch y diwydiant niwclear yn y DU a'r GAU a ddaw o'r gorsafoedd ynni niwclear sydd eisoes yn bod.
- c. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a atebodd Gwestiwn 8 yn cytuno y dylid rhoi manylion llawn y stocrestr o wastraff i'w waredu i gymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad fel rhan o'r trafodaethau ac y dylid eu hystyried fel rhan o'r prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned.
- d. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd angen cyhoeddi'r stocrestr ymlaen llaw, yn rhannol am fod y berthynas rhwng y stocrestr a'r canlyniadau yn un cymhleth. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cytuno â hynny. Os na fydd cymunedau wedi cael gwybodaeth glir ynghylch lefel yr ymrwymiad y disgwylir iddynt ei roi, gallai'r ymddiriedaeth a'r ffydd yn y

broses ddioddef a chreu cyfleoedd i roi gwybodaeth anghywir. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fydd gwaredu daearegol yn llwyddo oni cheir dealltwriaeth glir o'r hyn sydd ei angen ac o'r ymrwymïadau a ddisgwyllir gan bob partner ar sail gwybodaeth a rennir â phawb.

- e. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y gallai swm y stocrestr newid yn ei fanylion pe bai'r deunydd pacio yn newid. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, cyn belled â bod eglurder o'r dechrau ynghylch y gwastraff y bwriedir ei waredu, na fyddai newid y deunydd pacio yn debygol o gael effaith
- f. Roedd rhai ymatebwyr wedi dweud, er y gallai'r trafodaethau cychwynnol fod am y stocrestr gyfan, y gallai newid os bydd yr achosion diogelwch yn gosod cyfyngiadau ar faint o wastraff neu'r math o wastraff y gellid ei gladdu.
- g. Bydd y gorsafoedd ynni niwclear newydd yn cynhyrchu GAU wrth iddynt ymuno â'r system fel rhan o raglen Llywodraeth y DU. Rhagwelir rhaglen ag iddi gapasiti o 16 GWe.
- h. Roedd barn yr ymatebwyr a atebodd Gwestiwn 9 yn amrywio ynghylch cynnwys gwastraff o orsafoedd newydd yn y stocrestr o ddeunydd i'w waredu. Mae Llywodraeth Cymru'n sylweddoli bod rhai pobl yn gwrthwynebu codi gorsafoedd ynni niwclear newydd. Mae Llywodraeth Cymru'n esbonio ym mharagraffau 7.9 a-e uchod pam ei bod o blaid codi gorsafoedd niwclear newydd yng Nghymru ar y safleoedd presennol. Mae paragraffau *** YPwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM) hefyd yn cadarnhau nad oes rheswm technegol pam na ellir gwaredu gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd yn yr un cyfleuster CGD ag y cleddir gwastraff hanesyddol ¹⁹ & ²⁰. Bydd unrhyw drafodaethau rhwng cymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad a'r datblygwr yn debygol o gynnwys gwastraff gorsafoedd newydd yn y stocrestr. Caiff cymuned sy'n ystyried cynnig lleoliad adael y trafodaethau ar unrhyw bryd.
- i. Os caiff y stocrestr o wastraff i'w waredu ei newid ar ôl cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned, byddai'n rhaid i'r gymuned sy'n ystyried cymryd y gwastraff roi sêl ei bendith i'r stocrestr newydd. Fel arall, byddai'n rhaid meddwl am ffordd arall i waredu'r gwastraff ychwanegol.
- j. Ni chafwyd ymatebion i Gwestiwn 10 a ofynnodd a oedd angen opsiynau gwaredu gwahanol ar gyfer gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd.

2.19 Cefnogi cymunedau

¹⁹ Response from the Committee on Radioactive Waste Management to the Government consultation on the Draft National Policy Statements for Energy Infrastructure (CoRWM document 2748, 2 March 2010). (Saesneg yn unig)

²⁰ CoRWM Statement of its position on new build wastes (CoRWM document 2749, 2 March 2010) (Saesneg yn unig)

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth roi arian i gymunedau er mwyn talu cost cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ddarparu buddsoddiad ychwanegol ar gyfer cymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD a buddsoddiad cymunedol pellach os bydd cymuned yn ymrwmo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau

- a. Roedd Cwestiynau 11 a 12 yn gofyn am farn pobl ynghylch rhoi arian i gymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad, hynny er mwyn iddynt allu cymryd rhan gydradd mewn trafodaethau â'r datblygwr, a darparu arian ychwanegol i'r gymuned yn ystod trafodaethau ac ar ôl cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned.
- b. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd Gwestiwn 11 o blaid rhoi arian i gymunedau er mwyn iddynt allu talu am gymorth a chyngor annibynnol i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen i gymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad allu gweithio fel partneriaid cydradd â'r datblygwr ac â Llywodraeth Cymru. I hynny ddigwydd, rhaid bod gan y cymunedau'r adnoddau i ymroi i'r gwaith hwn ac i gael y cyngor annibynnol i seilio eu penderfyniadau arno.
- c. Roedd ymatebion y rheini atebodd Gwestiwn 12 yn amrywio. Roedd rhai ymatebwyr o blaid rhoi arian ychwanegol i gymunedau yn ystod y trafodaethau ac ar ôl prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned. Dywedodd ymatebwyr hefyd bod angen ystyried natur y 'gymuned' yn y cyd-destun hwn gan y bydd effaith y CGD yn debygol o'i theimlo lawer ymhellach na chyffiniau'r cyfleuster ei hun, ac yn wir ar draws ffiniau llywodraeth leol, a dylid ystyried hynny wrth feddwl sut i ddyrannu'r arian. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen i'r cymunedau lleol eu hunain gymryd rhan yn y penderfyniadau ynghylch natur y buddsoddiad yn y cymunedau.
- d. Roedd ymatebwyr eraill yn ofni y gallai'r buddsoddiad hwn yn y gymuned gael ei weld fel cildwrn i annog cymunedau i dderbyn CGD ac y byddai cymunedau dan anfantais o dan bwysau mawr i dderbyn CGD er mwyn cael y buddsoddiad cymunedol ychwanegol hwn.
- e. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus iawn. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymuned sy'n penderfynu cynnig lleoliad yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r DU gyfan. Mae'n debygol i gwelith y gymuned newid fawr yn sgil adeiladu a rhedeg y CGD, a hynny dros ddegawdau lawer. Byddai'r buddsoddiad ychwanegol yn y gymuned

yn gydnabyddiaeth o ymrwymiad y gymuned honno. At hynny, byddai'r buddsoddiad hwn ar gael i gymunedau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ni all Llywodraeth Cymru weld unrhyw reswm pam na ddylai cymunedau yng Nghymru sy'n derbyn CGD gael elwa yn yr un ffordd.

- f. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn sicrwydd bod unrhyw gyllid gan Lywodraeth y DU, o ran y costau sy'n deillio o gymryd rhan mewn trafodaethau ac o fuddsoddiad cymunedol cyn ac ar ôl unrhyw benderfyniad terfynol gan gymuned i gynnal GDF, ar gael i gynnal posibl cymunedau yng Nghymru ar yr un sail ag i gymunedau yn Lloegr.

ATODIAD 1

Cwestiynau Ymgynghori

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu prosesau lleoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cyd-fynd â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ar yr amod eu bod yn gyson ag anghenion cymunedau yng Nghymru?

Rhowch eich rhesymau.

Os ydych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gwahanol o weithredu nodwch pa drefniadau amgen a fyddai'n briodol a pha fanteision y byddent yn eu cynnig, yn eich barn chi.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno mai dim ond gyda chymunedau sy'n gwirfoddoli ac sy'n barod i ddechrau trafodaethau, heb wneud ymrwymiad ymlaen llaw, ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, y dylid bwrw ymlaen â gwaredu daearegol?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylai fod gan gymunedau hawl i dynnu'n ôl o drafodaethau y gellir ei harfer unrhyw bryd cyn cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylid cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned ar ôl cynnal trafodaethau a rhoi gwybodaeth i gymuned a allai gynnig lleoliad a chyn i'r gwaith o adeiladu CGD ddechrau?

Rhowch eich rhesymau

Cwestiwn 5: Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion adeiladol ynglŷn â sut y dylai'r prawf cyhoeddus o gefnogaeth y cyhoedd fod wedi'i strwythuro yng Nghymru.

Cwestiwn 6. Yn eich barn chi, a ddylid rhoi cyfle i gymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad weld gwybodaeth megis yr arolwg daearegol cenedlaethol a gwybodaeth am wyddoniaeth a pheirianeg gwaredu daearegol cyn iddynt gynnal trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 7. Yn eich barn chi, a ddylai cymunedau sy'n trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD allu ceisio cyngor arbenigol fel endidau annibynnol yn ystod y trafodaethau hynny pan fyddant yn ystyried bod ei angen?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 8. A ydych yn cytuno y dylid nodi'r stocrestr o wastraff i'w waredu cyn cynnal trafodaethau ac y dylai'r gymuned gytuno ar unrhyw newidiadau cyn ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 9. A ydych yn cytuno y dylai'r stocrestr o wastraff i'w waredu cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 10. Os nad ydych yn cytuno y dylid cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ar y stocrestr o wastraff i'w waredu pa opsiwn gwaredu fyddai'n well gennyh ar gyfer gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 11. A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth roi arian i gymunedau er mwyn talu cost cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 12. A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ddarparu buddsoddiad ychwanegol ar gyfer cymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD a buddsoddiad cymunedol pellach os bydd cymuned yn ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau.